

Cefndir Dogni

Mae'r term dogni yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r mesurau a gyflwynodd y Llywodraeth rhwng 1940 a 1954.

Oherwydd yr Ail Ryfel Byd roedd yn rhaid i Brydain gyfyngu ar yr hyn a oedd yn cael ei fewnforio, boed yn fwyd, deunydd neu danwydd.

Cyflwynwyd y mesurau dogni er mwyn sicrhau cydraddoldeb, cyflenwad teg i bawb, ac i sicrhau bod neb yn dioddef o dlodi a newyn. Nid oedd modd i unrhyw un osgoi dogni - ac roedd y Frenhiniaeth a'r Prif Weinidog yn gorfod cadw at y rheolau hefyd!


Dogni Deunydd a Dilladau

Roedd y galw cynyddol am wisgoedd a lifrau'r fyddin yn rhoi pwysau aruthrol ar ddiwydiant tecstilïau Prydain.

Erbyn mis Mehefin 1941 roedd dillad wedi cael ei roi ar dogni, derbyniodd pob unigolyn lyfryn cwponau.

Roedd pob eitem o ddillad yn cyfateb i werth penodol o gwponau, er enghraifft, roedd côt i ddyn yn 16 cwpon (11 i blentyn), fffrog wlaen i ferch yn 11 cwpon (8 i blentyn), ac esgidiau i ddyn yn 7 cwpon (3 i blentyn).

Ar y dechrau byddai pob oedolyn yn derbyn 66 cwpon y flwyddyn. Wrth i'r Rhyfel fynd yn ei flaen roedd deunydd yn brinnach ac erbyn 1945 dim ond 24 cwpon y flwyddyn y cai pob oedolyn. Byddai plant yn derbyn 10 cwpon ychwanegol gan eu bod yn tyfu.



Llyfr cwponau dogni



'Gwneud y Tro a Thrwsio' ('Make Do and Mend')

Mewn ymgyrch bropropaganda lwyddiannus anogodd y Llywodraeth ferched i drwsio, addasu a gwnïo dillad eu hunain.

Cynhyrchwyd pamffledi a phosteri yn rhoi awgrymiadau ar sut i atal difrod i wlaen, sut i wneud esgidiau bara'n hirach a sut i ofalu am ffabrig gwahanol.

Rhoddwyd dosbarthiadau nos a gwersi gwnïo i enethod mewn ysgolion.

Roedd yn rhaid bod yn greadigol ac roedd pob math o ddeunydd yn cael ei ail-gylchu e.e. crëwyd sgerti allan o hen ddillad milwrol, dillad i fabi allan o orchudd clustogau, dillad nos allan o barasiwt a matiau rag allan o hen garpiau.

Roedd pwysau ar wragedd tŷ i fod yn ffasiynol yn ystod dogni gan fod pryder y gallai diffyg diddordeb mewn 'ymddangosiad personol' fod yn arwyddocaol o forâl isel a hynny yn ei dro yn cael effaith andwyol ar yr ymdrech Rhyfel.

Oherwydd bod merched yn 'creu' dillad eu hunain, gwelid cynnydd mewn unigolyddiaeth a steil 'bersonol'.

Roedd pwyslais mawr ar beidio â gwastraffu unrhyw beth ac roedd 'arolygwyr' yn gallu pennu cosb o ddirwy neu garchar i'r sawl a fyddai'n cael eu dal.

DOGNI

Priodasau a Dogni

Er eu bod yn flynyddoedd o galedi, gwelwyd cynnydd mewn priodasau yn ystod yr Ail Ryfel Byd wrth i bobl ifanc wynebu ansicrwydd ynglŷn â'u dyfodol. Oherwydd cyfyngiadau dogni nid oedd yn hawdd dathlu priodas mewn modd traddodiadol, a gwelwyd 'addasiadau' hynod o ddyfeisgar. Dyma rai enghreifftiau:

Ffrog briodas

Yng nghasgliad Storiél mae ffrog briodas goch a oedd yn eiddo i ferch o Ynys Manaw a briododd yn 1944. Roedd y dogni yn ei gwneud yn anoddach i gerdded i fewn i siop a phrynu ffrog. Un dewis oedd gwneud eich ffrog eich hun. Mae'r ffrog yma wedi cael ei gwneud gan ddefnyddio cyn lleied o ddefnydd ag y bo modd i leihau 'gwastraff'.

Mewn achosion eraill byddai ffrogiau yn cael eu gwneud o hen barasiwtiau, eraill yn 'arbed' cwponau dillad at yr achos, a rhai yn 'addasu' ac 'adnewyddu' ffrogiau a oedd wedi'u benthyg neu eu hetifeddu gan aelodau'r teulu.

Siwt briodas i'r gŵr

Yn aml, roedd y dynion a oedd yn y fyddin, lluwyr neu'r llynges yn penderfynu priodi yn eu lifrau. Byddai hyn yn arbed cwponau gan na fyddai angen prynu siwt newydd.

Roedd rhai merched oedd yn aelodau o'r lluoedd arfog hefyd yn gwisgo'u lifrau i arbed cwponau.



Colur

Roedd colur yn brin ac yn ddrud iawn yn ystod blynyddoedd y Rhyfel ac felly roedd menywod yn 'dyfeisio' clour eu hunain. Defnyddiwyd betys cochion fel minlliw, sialc fel powdr wyneb a 'polish' esgidiau fel masgara.

Roedd rhai merched yn rhoi 'gravy browning' ar eu coesau a thynnu llinell ddu ar y cefn er mwyn rhoi'r argraff eu bod yn gwisgo teits.

Cacen Briodas

Gan fod wyau ar ddogni nid oedd yn hawdd pobi cacen yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Roedd eisin wedi ei wahardd yn ystod dogni gan ei fod yn cael ei ystyried fel gwastraff llwyr ar siwgr. Ar gyfer priodas, roedd rhai cyplau yn 'arbed' cwponau siwgr a menyn er mwyn creu torth 'ffrwyth' fach.

Roedd eraill llawer mwy 'dyfeisgar' ac yn penderfynu creu cacen ffug o gardbord, ac yn ei addurno gyda phapur reis er mwyn rhoi'r argraff o foethusrwydd.

Roedd rhai cyplau yn arbed eu cwponau am fisoedd cyn y dathliadau a rhai yn cyfyngu ar y nifer o westeion ac yn cael priodas fach iawn.

Yn hytrach na chael bwyd moethus, roedd rhai yn penderfynu gweini 'cawl llyisiau', pryd a fyddai'n gyffredin iawn yn ystod dogni.

Un 'twyll' arall oedd cyflwyno'r bwyd ar blatiau bach er mwyn gwneud y prydau i edrych yn fwy!

DOGNI

Gemwaith/Modrwyau

Roedd aur yn brinnach yn ystod y Rhyfel a byddai rhestr aros o rai misoedd am fodrwy gan emyddion.

Er mwyn gorchfygu hyn byddai rhai cyplau yn benthg modrwyau i'w defnyddio am y diwrnod, ac eraill yn etifeddu modrwyau gan deulu.

Roedd rhai menywod hefyd yn 'creu' mwclis neu gadwyni yn defnyddio hen ddarnau o awyrennau'r gelyn pe baent wedi disgyn neu chwalu mewn cae cyfagos.

Blodau

Er nad oedd blodau ar ddogni, roedd pwyslais cynyddol ar ddefnyddio tir maethlon i dyfu llysiau yn hytrach nag i dyfu 'addurn'.

Yn aml roedd tusw wedi'i greu yn defnyddio blodau gwyllt, gyda rhai hyd yn oed yn defnyddio dail bresych i greu'r argraff o dusw swmpus.

Ceir

Roedd petrol hefyd ar ddogni a rhaid oedd ystyried yn ofalus lleoliad cynnal y briodas.

Nid oedd yn anghyffredin i gyplau gynnal y seremoni yn y capel neu eglwys lleol ac yna cynnal y dathliadau a'r tē priodas gartref yn yr ardd gefn.

Yn yr un modd â heddiw, roedd cyplau yn dibynnu yn helaeth ar gymorth teulu, ffrindiau a chymdogion i gynnal priodasau, ac roedd y gymuned leol yn chwarae rhan bwysig yn y trefnu a'r dathlu. Yn aml, roedd ffrindiau a theulu hefyd yn 'rhoi' cwponau i gwpl cyn eu priodas fel anrheg.



Sach wedi ei hailgylchu i greu lliain bwrdd

Llyfryddiaeth

- Julie Summers, *Fashion on the Ration: Style in the Second World War* (Llundain, 2015)